# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2007 11 Tachwedd Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol Cyngor Cymuned y Betws yn Festri Capel Newydd, y Betws ar ddydd Mercher y 14eg o Dachwedd 2007 am 7.00 yr hwyr.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Carwyn James (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, Cynghorwyr Richard Howell, Anne Sizmur, Loreen Lewis, Audrey Jones a Betsan Jones.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Keith Rees, Menna Roberts, June Gunter, Annette Price, Delyth Richards a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 10fed O HYDREF 2007.
Roedd gan y Cynghorwr Carwyn James newidiad i wneud ynglyn ar gofnodion Cymraeg rhif 8 delai ddarllen fod cymhorthfa'r Cyngor Cymuned yn cael ei dal pob tri mis ac nid pob dau fis fel y dywedwyd yn y cofnodion. Cytunwyd y Cynghorwyr i'r newidiad uchod.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Arnallt James ac eiliodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod cofnodion cyfarfod y 10fed o Hydref 2007 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Dywedodd y Cadeirydd wrth y Cynghorwyr bod ef ar Glerc wedi bod yn ddiweddar i ymweld â Chyfreithiwr Llys Cennen, lle llofnodwyd y ddau ohonynt am drosglwyddo'r tir ar Heol Y Felin, Betws dros i'r Cyngor Cymuned. Hefyd dywedodd y Clerc nid yw hi wedi derbyn cadarnhad wrth y Cyfreithiwr fod trosglwyddiad o'r tir wedi cael ei gwblhau.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.2 Ysgol Gyfun Dyffryn Aman.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gyda'r Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gyfun Dyffryn Aman, sydd wedi cadarnhau bod y matter o ddisgyblion yn achosi niwsans amgylch Rhydaman wedi cael ei godi yn wasanaethau'r Ysgol. Mae'r Ysgol yn parhau i fonitor sefyllfa hyn, ac maen nhw'n danfon Athrawon i Rydaman yn ystod amser cinio.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.3 Ty Haf/Pont ym Mharc Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth GADW sy'n dweud 'i gael adeilad o'r oedran hyn eu rhestredig delai fod yn rhywbeth fel ei chyflwr gwreiddiol, roedd y bont ar un adeg yn rhan ddiweddar o beiriandy Georgaidd sydd wedi cael ei ailchwyddasid cysgod yn y parc tua 40 blynedd yn nol, nid yw'n gallu dweud ei fod ef wedi cadw digon o'r adeiledd gwreiddiol ac fel nid ydynt yn gallu adio'r adeilad i'r rhestr statudol.
Dywedodd y Clerc bydda hi'n dweud wrth Peter Cowell afelly.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.4 Gwobrau Personoliaeth Chwaraeon Sir Gaerfyrddin.
Dywedodd y Cynghorwr Audrey Jones wrth y Cynghorwyr fod y Cynghorwyr June Gunter a Betsan Jones wedi danfon y ffurflen enwebiad iddi hi gwblhau. Roedd y Cynghorwr Audrey Jones wedi cadarnhau ei bod hi wedi cwblhau'r ffurflen enwebiad ac wedi dychwelid yn nol at

Gyngor Sir Caerfyrddin.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.5 Llwybr Troed 68/11 yn mynd o Heol Y Cyrnol tuag at Heol Maescware, Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gyda Dwr Cymru ynglyn â gostwng y clawr ar y twll archwilio ar lwybr troed 68/11. Mae'r perchennog y tir mewn anghydfod gyda Dwr Cymru, ac mae'r ddau party wedi penderfynu cael cyfarfod. Fydd Dwr Cymru yn rhoi gwybod i'r Cyngor Cymuned canlyniadau'r cyfarfod mewn amser.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.6 Parc y Betws.
Roedd y Cynghorwr Arnallt James yn pryderu oherwydd bod dail dâl i fod ar lwybrau troed ym mharc y Betws. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi cael ymateb yw llythyr a budd hi'n dilyn lan y mater hwn gyda Chyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn dilyn lan y mater hwn.

2.7 Torch Coffa.
Dywedodd y Cadeirydd Carwyn James wrth y Cynghorwyr ei fod ef wedi rhoi dau dorch coffa: un ym Mharc y Betws ac yr un arall yn Rhydaman.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.8 Berth ar hyd Heol Maescware, Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â'r canghennau yn gordyfu o flaen ti ar Heol Maescware, Betws.
Maen nhw wedi siarad gyda'r perchennog sydd wedi sicrhau ei fod yn mynd i roi sylw i'r mater hyn yn y dyfodol.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cymdeithas Trefeillio Rhydaman.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Gymdeithas Trefeillio Rhydaman yn gofyn a yw'r Cyngor Cymuned am ddanfon cynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned i eistedd ar Gymdeithas Trefeillio Rhydaman. Dywedodd y Cynghorwr Betsan Jones fod ganddi hi ddiddordeb i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ac fe gytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Cynghorwr Betsan Jones yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Gymdeithas Trefeillio Rhydaman.

3.2 Cyngor Sir Caerfyrddin - Seminar Cynllunio.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth ynglyn â Seminar Cynllunio, sy'n cael eu cynnal yn fis Chwefror 2008. Y gost yw £20 bob person. Dywedodd y Cynghorwyr Anne Sizmur ac Loreen Lewis fod ganddynt ddiddordeb mewn mynychu'r seminar.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn hysbysu Cyngor Sir Caerfyrddin yn unol â hynny.

3.3 Cyngor Sir Caerfyrddin - Golau Cyhoeddus.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ymholiad wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ar bostyn golau, sydd wedi ei leoli ar y lôn yn arweiniol i'r Felin. Nid yw'r golau yn gweithio ac mae'r postyn yn bwdr. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gofyn a oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw wrthwynebiad i symud y postyn yn llwyr, oherwydd nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin wedi derbyn unrhyw gwynion wrth breswylwyr bod y golau ddim yn gweithio?
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr bod ganddyn nhw ddim gwrthwynebiadau i wneud os yw'r Adran Goleuadau Cyhoeddus wedi cael caniatâd wrth breswylwyr sy'n byw ar hyd y lôn.

3.4 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.

1.Cyngor Sir Caerfyrddin - Cynllun Gwella 2007/2008.
2.Cyngor Sir Caerfyrddin - Addurniadau Tymhorol.
3.Cyngor Sir Caerfyrddin - Arfaethedig cyfyngiad aros - rhoddwyd i Gynghorwr Richard Howell.
4.Cyngor Sir Caerfyrddin - holiadur cynhaliaeth y briffordd - mae Cynghorwr Carwyn James mynd i gwblhau'r holiadur a'u dychwelid.
5.Cyngor Bwrdeistref Siriol Castell Nedd & Port Talbot - Cynllunio - rhoddwyd i Gynghorwr Richard Howell.
6.Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir Gar - Holiadur Troseddau ac Anhrefn - roedd y Cynghorwyr wedi cwblhau'r holiadur.
7.Awdurdod Heddlu Dyfed Powys - Cynllun Plismona 2008/20011 - roedd y Cynghorwyr wedi cwblhau'r holiadur.
8.Dathliad o waith cymunedol Antur Teifi 2006-2007.
9.Awdurdod Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - Cynllun Lleihau Risg 2008/2009.
10.Awdurdod Heddlu Dyfed Powys - Cyfarfod Cyhoeddus.
11.Un Llais I Gymru - Y Llais - rhoddwyd i Gynghorwr Carwyn James.
12.Un Llais I Gymru - Bwletin Sir Gaerfyrddin.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned y Betws wedi rhoi caniatâd i'r ceisiai cynllunio canlynol:-
E/17610 - Amrywiad i gyflwr cynllunio i gynnwys adran storfa yn yr atig yn 89 Heol Y Cyrnol, Betws (26/2007-08).
E/17619 - Datblygiad Preswyl (6 Ty) tir ger Heol Y Cyrnol, Betws (27/2007-08). Roedd y Cynghorwyr yn pryderu ynglyn ar ddraeniad y dwr wyneb a hefyd y ffordd fynediad mewn i'r safle.

4.2 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd cynllunio i'r ceisiadau canlynol:-
E/17351 - Dymchweliad o garej wreiddiol a phorth ac ail adeiladu garej a phorth newydd ger 31a Heol Maescware, Betws (25/2007-08).
E/14701 – Datblygiad Preswyl ar Safle Gwaith Glo Betws, Rhydaman (27/2006-07).
E/16734 - Newid defnydd tir o ddefnydd amaethyddol a hyfforddi ceffylau yn breifat i hyfforddi ceffylau harnais yn fasnachol ar dir ger Ffarm Bryneithin, Heol Argoed, Betws (19/2007-08).
E/15891 - Adeiladi dau annedd i arlwyo llety i'r hyfforddwyr a hyfforddwyr stabl ynglyn â sefydliad hyfforddiant ceffylau ger Bryneithin, Heol Argoed, Betws(4/2007-08).
E/15892 - Adeiladu bloc stabl ynglyn â sefydliad hyfforddiant ceffylau ger Bryneithin, Heol Argoed, Betws (5/2007-08).
E/16255 - Arfaethedig cyntedd/ffordd mewn i luestfa preswylwyr i gefn Ty Coch, Heol Maescware, Betws, Rhydaman (10/2007-08).

5. CYFRIFON.
5.1 Taliadau.
2. Cyngor Sir Caerfyrddin (Rhif Anfoneb. 91553789 - Prosiect Parc y Betws ) £11,750.00
1. Apêl Pabi 2007/2008 (2 x torch) £36.00
CYFANSWM £11786.00

PENDERFYNODD y Cynghorwyr i dalu'r biliau uchod.

5.2 Incwm a dderbyniwyd.
1. Prosiect Parc Betws £9,500.00
2. Prosiect Parc Betws £2,118.50
2. Ad-daliad TAW £3,844.01

NODWYD yr uchod gan y Cynghorwyr.

5.3 Blaenswm o Precept Cyngor Cymuned y Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod rhaid i'r grant am Ardd Goffa Synhwyraidd Parc y

Betws cael ei adenilledig erbyn y 31ain o Ragfyr 2007. Ar hyn o bryd dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hyn yn bosib oherwydd nid oes gan y Cyngor Cymuned ddigon o arian. Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr os gall hi ysgrifennu at Adran Cyllid o Gyngor Sir Caerfyrddin i ofyn a gall y taliad terfynol or precept sydd yn ddyledus ar y 31ain o Ragfyr 2007, cael ei chyflwyno i'r Cyngor Cymuned cyn gynted â phosib.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Adnoddau i ofyn a gall y daliad terfynol or precept cael ei gyflwyno i'r Cyngor Cymuned cyn gynted â phosib.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones a PCSO Dan Garnell y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd PC Kevin Jones fod yna un lladrad yw nodi yn ardal y Betws yn ystod mis Hydref.

Dywedodd PC Kevin Jones fod PC Jamie Lang wedi bod i ymweld ar dy ar hyd Heol Maescware ac wedi rhoi cyngor i'r perchennog ynglyn ar ganghennau yn gordyfu. Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis fod rhai o'r canghennau wedi cael ei thorri.

Dywedodd PC Kevin Jones ddelai drigolion gweld gostyngiad yn y nifer o gerbydau Heddlu yn teithio ar hyd Heol Pentwyn, oherwydd bod yr hewl newydd wedi agor sy'n cysylltu â Phontaman.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.
Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i PC Kevin Jones a PCSO Dan Garnell am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Nid oedd y Cynghorwr Sir John D Evans yn gallu fod yn bresennol yn y cyfarfod.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Gardd Goffa Synhwyraidd Parc y Betws.
Dywedodd y Cynghorwr Loreen Lewis wrth y Cynghorwyr fod y Cynghorwr Annette Price am gael cyfarfod arbennig ynglyn â rhan 2 o Ardd Goffa Synhwyraidd Parc y Betws. Awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur ac fe gytunwyd y Cynghorwyr fydd hyn yn cael ei drafod yn Cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned sy'n cael ei gynnal ym mis Rhagfyr.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr i roi hyn ar agenda mis nesaf.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Cynllun Datblygu Unedol (CDU).
Gofynnodd y Cynghorwr Carwyn James i'r Cynghorwyr pwy sydd a'r CDU ar hyn o bryd? Dywedodd y Cynghorwr Audrey Jones fod ganddi hir CDU, ond fydd hi'n danfon hyn ymlaen at Gynghorwr Carwyn James.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9.2 Goleuadau Tymhorol ar yr Eglwys ym Metws.
Awgrymodd y Cynghorwr Carwyn James fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Jones i wneud ymholiad i weld a yw'n bosib rhoi goleuadau ar y goeden tu allan i Eglwys y Betws.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn ysgrifennu at Mr Jones.

9.3 Plac Etifeddiaeth.
Gofynnodd y Cynghorwr Anne Sizmur os yw'r Clerc yn gallu gwneud ymholiadau mewn i'r gost o brynu plac etifeddiaeth.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiadau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ag archebu plac etifeddiaeth.

9.4 Hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Cynghorwr Richard Howell wrth y Cynghorwyr fod yr hysbysfwrdd sydd du allan i Ysgol Gynradd y Betws mewn cyflwr gwael. Awgrymodd y Cynghorwr Richard Howell ac fe

gytunwyd y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiadau ynglyn â'r gost o ailosod yr hysbysfwrdd .
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gwneud ymholiadau ynglyn â'r gost o ailosod yr hysbysfwrdd cyfredol.

Gorffennodd y Cyfarfod am 8.05 yr hwyr.